

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad Canllawiau statudol drafft – Cyd-bwyllgorau Corfforedig

Eich enw: David Cook

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

E-bost / rhif ffôn: dcook@wcva.cymru

Eich cyfeiriad: Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH

C1: Yn gyffredinol, a yw'r canllawiau drafft yn rhoi lefel briodol o gefnogaeth i Gyd-bwyllgorau Corfforedig er mwyn iddynt roi'r trefniadau angenrheidiol ar waith i weinyddu a llywodraethu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn briodol?

Nac ydyn

Os na, beth arall y gellid ei ychwanegu?

Nawr y byddant yn gyrff statudol â chyfansoddiadau ar wahân, mae angen i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gael eu hychwanegu at y rhestr o fudiadau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn meddu ar y pwerau i wneud hyn drwy reoliad dan Adran 52 y Ddeddf.

C2: A yw Pennod 1 yn rhoi arweiniad priodol/digonol ar aelodaeth a chyfansoddiad y Cyd-bwyllgorau Corfforedig?

Nac ydy

Os na, beth fydddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei newid?

Cyfeirir ychydig iawn at fewnbwn y trydydd sector i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Dywed paragraff 4.4 bod angen i fewnbwn o'r fath gael ei 'ystyried' yn unig. Mae diffyg rhwymedigaeth i ymgysylltu â chymdeithas sifil yn peri gofid. Nid yn unig yw'n groes i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, byddai hefyd yn groes i egwyddorion y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus. Er bod darpariaeth i gyfethol cynrychiolwyr y sector gwirfoddol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig nid yw hyn yn ddigon cryf. Nid yw'n ymddangos bod y canllawiau'n cydnabod nad oes modd i'r ystod eang o feysydd gwasanaeth strategol gael eu cynrychioli gan un llais unigol ac ni chyfeirir at y broses ar gyfer dethol aelod cyfetholedig. Mae angen eglurder pellach o ran sut mae Cyd-bwyllgorau Cyfetholedig yn penderfynu pwy fydd yn aelodau â phleidlais a'r broses sicrhau ansawdd er mwyn gwarantu tegwch a chynrychiolaeth yn rhanbarth y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Gallai cynrychiolaeth y Cyd-bwyllgorau Corfforedig olygu bod partneriaethau a chyd-berthnasoedd a hen sefydlwyd rhwng Byrddau Iechyd a'r sector gwirfoddol dan fygythiad ac yn cael eu gwanhau a byddai diffyg cydweithredu a chyd-gynhyrchu.

Dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig anelu at yrru a gwella cydweithredu traws-sector yn eu rhanbarthau eu hunain – h.y. tynnu'r cysylltiadau rhwng meysydd iechyd, tai, addysg, ac ati.

C3: A yw Pennod 2 yn rhoi arweiniad priodol/digonol ar faterion staffio a gweithlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig?

Nac ydy

Os na, beth fyddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei newid?

Byddai'n dda gweld ymrwymiad i gefnogi gwirfoddoli ymhlith cyflogeion a, hefyd, i ystyried secondiadau i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i'r sector gwirfoddol. Byddai hyn yn galluogi i bartneriaethau cryfach gael eu datblygu ac yn cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant.

C4: A yw Pennod 3 yn rhoi arweiniad priodol/digonol ar gyfarfodydd a thrafodion Cyd-bwyllgorau Corfforedig?

Nac ydy

Os na, beth fyddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei newid?

Noda paragraff 46.1: 'Bydd y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn bwysig i'w hystyried yng nghyd-destun Cyd-bwyllgor Corfforedig.' Oni ddylai'r pum ffordd o weithio fod yn orfodol ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac nid yn werth eu hystyried yn unig? Fel cyrff cyhoeddus newydd, dylai'r Ddeddf fod wedi'i phlannu'n rhan o Gyd-bwyllgorau Corfforedig o'r cychwyn cyntaf.

Mae'r broses yn mynd i ddibynnu ar lefel ymrwymiad aelodau a faint o amser y gallant ei fuddsoddi ar lefel ranbarthol gan hefyd fod yn gyfrifol am yr un meysydd gwaith ar lefel sirol. Bydd hyn yn anodd i bob asiantaeth ei chydbwyso.

Noda paragraff 46.5: 'Gallai Cyd-bwyllgorau Corfforedig ystyried opsiynau gwahanol wrth osod eu hamcanion a'u camau llesiant ond, mewn unrhyw achos, mae angen iddynt sicrhau bod eu hymagwedd wedi'i hintegreiddio er mwyn lleihau baich gweinyddol ac annog defnyddio adnoddau'n effeithlon.' Fel yn achos C4, dylai hyn fod yn orfodol a dylai eu hymagwedd at osod a gweithredu amcanion llesiant gael eu hintegreiddio i fodloni dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gall is-bwyllgorau roi cyfle i sicrhau bod cysylltiadau a chyfarfodydd â mwy o ffocws.

C5: A yw Pennod 4 yn rhoi arweiniad priodol/digonol ar graffu ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig a'u llywodraethu?

Nac ydy

Os na, beth fyddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei newid?

Mae aelodau'r Cyngor eisoes yn pryderu am y diffyg craffu ar gyfer 'endidau rhanbarthol' megis Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Grwpiau Arweinyddiaeth ac ati. Mae'r meysydd gwaith pennaf yn eistedd o fewn portffolios Aelodau Arweiniol y

Cyngor ond, bellach, mae'r aelodau hyn yn chwarae rhan gyflawn o ran craffu ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig. Ymddengys bod hyn yn wrthdaro buddiannau.

Mae'r rhaid i'r Swyddogion Monitro sicrhau bod pwyllgorau craffu yn meddu ar lwybrau agored, hygyrch ar gyfer ymgysylltu er mwyn i bob rhanddeiliad, gan gynnwys y sector gwirfoddol, allu ymgysylltu. Hefyd, mae'n rhaid i brosesau cyllidebu gefnogi tryloywder a chael eu cyhoeddi mewn fformatau hygyrch.

C6: A yw Pennod 5 yn rhoi arweiniad priodol/digonol ar ariannu, cyllid a materion cyllidebol Cyd-bwyllgorau Corfforedig?

Nac ydy

Os na, beth fydddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei newid?

Ceir ansicrwydd o hyd o ran y broses ar gyfer cyllidebau a gronnir ac adnoddau a rennir ar draws yr awdurdodau lleol a phartneriaid. Os nad oes modd i'r sector gwirfoddol gynnig adnoddau ariannol ceir canfyddiad o fod yn aelod ail ddsbarth o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig neu a fydd y cynrychiolwyr pennaf yn ystyried y sector fel ffynhonnell gyllid bosibl ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy gronfeydd elusennol? Mae diffyg eglurder o ran sut y caiff y sector ei ystyried ynghylch cyllid – fel derbynnydd neu fel cyfrannwr? Hefyd, mae diffyg eglurder ynghylch sut y gall gwaith gael ei gomisiynu rhwng y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac a fydd y sector yn gydradd o ran derbyn cyllid e.e. cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Ymddengys bod canllawiau annigonol o ran cyllido Cyd-bwyllgorau Corfforedig – ceir risg na fydd digon o adnoddau ganddynt yn yr un modd â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Hefyd, nid yw'r ddogfen yn cyfeirio at gymorth cyllid ar gyfer cynnwys gwirfoddolwyr a'r sector gwirfoddol ei hun.

C7: A yw Pennod 6 yn rhoi arweiniad priodol/digonol ar y dyletswyddau statudol eraill a fydd gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig?

Nac ydy

Os na, beth fydddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei newid?

Bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i ddatrys y pontio o ddyletswyddau statudol lleol i ôl-troed rhanbarthol a sut y gellir mynd i'r afael â hynny trwy arallgyfeirio adnoddau o sefyllfa leol i sefyllfa ranbarthol. Wrth i'r dyletswyddau statudol symud, gall fod perygl y bydd Awdurdodau Lleol yn gwthio 'eu' rolau statudol presennol i ranbarthol ond allgau'r sector gwirfoddol fel partner cyflenwi posibl.

Noda paragraff 46.6 'gall Cyd-bwyllgorau Corfforedig weithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill yn eu hardal, yn ogystal â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth osod eu hamcanion llesiant'. Fel y nodwyd yn flaenorol, dylai hyn fod yn orfodol nid yn opsiynol. Mae gweithio cyd-gynhyrchiol yn hanfodol er mwyn i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyflawni eu hamcanion.

Noda paragraff 46.7: 'Bydd cymhwysu'r Pum Ffordd o Weithio a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn helpu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, eu cynghorau cyfansoddol a chyrrff cyhoeddus eraill i benderfynu'r amcanion a'r camau y gallant gydweithio arnynt i gyflenwi eu dyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynyddu i'r eithaf eu cyfraniad fel unigolion a'u cyd-gyfraniad at y nodau.' Er bod hyn yn wir, mae'n ddatganiad gwag yn hytrach nag arweiniad. Dylai nodi'n amlwg bod yn rhaid i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gymhwysu'r Pum Ffordd o Weithio wrth iddynt weithio gyda'u partneriaid.

Dylai paragraff 46.8 gael ei ddileu. Ni ddylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn gosod eu hamcanion eu hunain ochr yn ochr â'r rhai a osodwyd eisoes gan eu cynghorau lleol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chyrrff eraill. Bydd hyn yn wrthgynhyrchiol. Mae'n rhaid i osod amcanion llesiant fod yn fenter ar y cyd er mwyn gweithredu'r Ddeddf yn effeithiol.

Mae geiriad paragraffau 47 i 49 ar yr Iaith Gymraeg, Cydraddoldeb, a'r Amgylchedd yn gryfach na pharagraff 46. Mae cysondeb yn gofyn bod paragraff 46 yn nodi 'Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn destun gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'.

Rhywfaint o sylwadau ar faes iechyd a gofal cymdeithasol: Nid yw creu haen ychwanegol o fiwrocratiaeth ar lefel ranbarthol gan ystyried bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn bodoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac yn gyfrifol am Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth, cynllunio rhanbarthol, a chreu sefydlogrwydd yn y farchnad yn gwneud llawer o synnwyr. Mae hyn yn debygol o greu cymhlethdodau pellach yn hytrach na'u lleihau. Bydd yn rhwystro'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant rhag cael ei gweithredu yn unol â'r bwriad. Os daw gofal cymdeithasol yn 'gyfrifoldeb' y Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac nid yw rhai sectorau wedi'u cyfethol, mae'n debygol y bydd diffyg ymrwymiad gan uwch-arweinwyr a rheolwyr yn y sectorau hynny nad ydynt wedi'u cyfethol.

Mae'r alwad am integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn un bresennol o hyd ac mae'n anodd gweld sut y gallai Cyd-bwyllgor Corfforedig symud hyn yn ei flaen gan ystyried y cymhlethdodau sydd ynghlwm â hyn a'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol.

C8: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai'r canllawiau yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau posibl yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Mae'n bwysig bod yr egwyddorion a'r ymarfer a sefydlwyd i gefnogi ac i hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn cael eu hintegreiddio yn rhan o'r canllawiau a datblygiad Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

C9: Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r canllawiau gael eu ffurfio neu eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau

cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan sicrhau nad oes dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

(Rhowch eich ateb yma)

C10: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol am y canllawiau drafft. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, mae croeso i chi eu nodi yn y fan yma.

Cyfeiria paragraff 36.2 at y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn derbyn cyllid gan y sector gwirfoddol. Ai gwall yw hwn? Ni ddylai ac ni allai'r sector gwirfoddol ariannu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Mae'r sector yn awyddus i fod yn rhan o ddatblygu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a gall gefnogi gweithgarwch partneriaeth trwy allu cyflwyno cais am gyllid pan nad yw cyrff sector cyhoeddus yn gymwys.

Hoffem ddiolch i'r mudiadau sector gwirfoddol a gyfrannodd at yr ymateb hwn.

Bydd CGGC yn hapus i drafod y materion hyn ymhellach gyda Gweinidogion, Pwyllgorau, neu swyddogion ar gais.